National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Llwybr Rhedeg Rhosili

Mae’r llwybr rhedeg 10km amrywiol hwn yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru ar hyd ochr Cefnen Rhosili ac yn ôl ar hyd 3 milltir o draeth euraidd, gyda’r ail hanner yn estyn draw at bentir dramatig Ynys Weryn.

### Fffermio ecogyfeillgar

Yng nghaeau'r ardal hon gallwch weld un o enghreifftiau gorau'r wlad o’r dull ffermio traddodiadol o gaeau lleiniau agored. Rydyn ni'n ffermio gan ddefnyddio dulliau sy'n cefnogi bywyd gwyllt, gan greu gweirgloddiau (dolydd gwair) newydd a phlannu cnydau traddodiadol sy'n creu cynefinoedd perffaith ar gyfer planhigion âr, adar a pheillwyr.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Maes parcio’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Rhosili, SS 414880

Map AO: Explore 164

Gweithgaredd: Rhedeg

Hawdd: Mae’r llwybr hwn yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru a thair milltir o dywod gwastad ar draeth Rhosili. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn, ar yr amod eu bod yn cael eu cadw dan reolaeth agos. Rhaid iddynt gael eu cadw ar dennyn wrth groesi tir amaeth. Mae traeth Rhosili yn croesawu cŵn drwy gydol y flwyddyn.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 0 (km: 0)

Llwybr byr: Milltiroedd: 3 (km: 4.8)

Mynediad: Hawdd

Hyd: 1 awr - 2 awr

## Tirwedd

Mae’r llwybr rhedeg 10km amrywiol hwn yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru ar hyd Cefnen Rhosili, gyda grisiau

## Cyfanswm y camau: 5

Man cychwyn: Maes parcio’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Rhosili, SS 414880

1. Trowch i'r dde wrth adael mynedfa'r maes parcio a dilyn yr heol tua'r dwyrain gan ddefnyddio'r llwybr troed ar hyd ochr mynwent yr eglwys, cyn ailymuno â'r heol wrth gyffordd yn y llwybr.
2. Trowch i'r chwith yma ac ymuno â Llwybr Arfordir Cymru (LlAC) a'i ddilyn tua'r gogledd. Trowch i'r chwith i ddilyn ochr y bryn gan gadw at ochr y môr wrth basio'r Begwn nes i chi gyrraedd y ffordd yn Hillend.
3. Trowch i'r chwith, gan gadw at Lwybr Arfordir Cymru (LlAC), gan ei ddilyn tua'r gorllewin nes cyrraedd y traeth. Gadewch LlAC a throi i'r chwith i draeth Rhosili a rhedeg tua'r de ar hyd tywod cadarn, gwastad yr holl ffordd yn ôl at y llwybr serth islaw pentref Rhosili yng nghornel dde-ddwyreiniol y traeth.
4. Dringwch y llwybr serth nôl at y dechrau, ond trowch i'r dde wrth y maes parcio a dilyn Llwybr Arfordir Cymru, sydd hefyd yn rhan o Lwybr Gŵyr, at Ynys Weryn. Dilynwch y llwybr heibio i'r Hen Gastell, gyda dolydd ar y chwith i chi, i gyrraedd yr wylfan.
5. Trowch i'r chwith a dilyn Llwybr Arfordir Cymru (LlAC) o amgylch y pentir nes cyrraedd cilfach a chyffordd yn y llwybr. Trowch i'r chwith gan adael LlAC, ac ewch tua’r tir ar hyd ymyl y caeau lleiniau hynafol. Trowch i'r chwith pan gyrhaeddwch y gyffordd nesaf a dilyn y llwybr ar hyd ymyl y caeau yn ôl i’r dechrau.

Man gorffen: Maes parcio’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Rhosili, SS 414880

serth, ac yn ôl ar hyd 3 milltir o draeth euraidd, gyda'r ail hanner yn estyn draw at bentir dramatig Ynys Weryn.